# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 6 Hydref 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

# 23(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Sioned Williams (Gorllewin De Cymru): Beth mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud i liniaru effeithiau penderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu y cynnydd mewn credyd cynhwysol o heddiw ymlaen?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog er mwyn caniatáu dadl ar eitemau 5-8

(5 munud)

**NDM7802** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(ii) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NDM7798, NDM7799, NDM7800 ac NDM7801 gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 6 Hydref 2021.

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 5-8 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

(5 munud)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.1 i sefydlu Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

**NDM7798** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i graffu ar waith y Prif Weinidog o safbwynt unrhyw fater sy'n berthnasol i'r gwaith o arfer swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.2T ac 17.3 i ethol aelodau a Chadeirydd i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

**NDM7799** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.2T, yn penderfynu na fydd Rheolau Sefydlog 17.2A i 17.2S (ethol cadeiryddion pwyllgorau) yn gymwys mewn perthynas â’r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

a) John Griffiths (Llafur Cymru), Jenny Rathbone (Llafur Cymru), Jack Sargeant (Llafur Cymru), Paul Davies (Ceidwadwyr Cymreig), Russell George (Ceidwadwyr Cymreig) a Llyr Gruffydd (Plaid Cymru) yn aelodau o’r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog; a

b) David Rees (Dirprwy Lywydd) yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.5 i sefydlu Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd

**NDM7781** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.5:

1. Yn sefydlu Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.

2. Yn cytuno mai cylch gwaith y Pwyllgor yw:

a) ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn y Bumed Senedd fel y nodir yn ei adroddiad Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf a osodwyd gerbron y Senedd ar 10 Medi 2020;

b) erbyn 31 Mai 2022, gwneud argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar Fil Llywodraeth Cymru i Ddiwygio'r Senedd.

3. Yn cytuno y caiff y Pwyllgor ei ddiddymu yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ei adroddiad terfynol.

## 8 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.2T, 17.3, 33.6 a 33.8 i ethol aelodau a Chadeirydd i'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, i atal y Rheolau Sefydlog dros dro mewn cysylltiad â'r pwyllgor hwnnw, a chytuno ar drefniadau pleidleisio yn y pwyllgor

**NDM7800** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.2T, yn penderfynu na fydd Rheolau Sefydlog 17.2A i 17.2S (ethol cadeiryddion pwyllgorau) yn gymwys mewn perthynas â'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

a) Jayne Bryant (Llafur Cymru), Darren Millar (Ceidwadwyr Cymreig), Sian Gwenllian (Plaid Cymru), a Jane Dodds (Democratiaid Rhyddfrydol) yn aelodau o'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd;

b) Elin Jones (Llywydd) fel aelod o'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd;

c) Huw Irranca-Davies (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.

3. Yn unol â Rheol Sefydlog 33.6 a 33.8, yn penderfynu na fydd Rheolau Sefydlog 17.37 i 17.39 yn gymwys mewn perthynas â'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.

4. Yn penderfynu, lle mae angen pleidlais i waredu busnes, y bydd pleidleisio yn y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn gweithredu fel a ganlyn:

a) dim ond wrth arfer pleidlais fwrw y caiff y cadeirydd bleidleisio;

b) ni chaiff y Llywydd bleidleisio;

c) caiff pob aelod arall o'r Pwyllgor bleidleisio ac, os ydynt yn perthyn i grŵp gwleidyddol, mae pob aelod yn cael un bleidlais ar gyfer pob aelod o'r grŵp gwleidyddol y mae'n perthyn iddo (gan gynnwys ei hun a'r Llywydd a'r Dirprwy os yw'n aelodau o'i grŵp gwleidyddol);

d) rhaid pasio penderfyniad i gytuno ar argymhellion i'r Senedd ar bleidlais lle mae'r aelodau sy'n pleidleisio o'i blaid yn cario o leiaf 40 pleidlais.

## 9 Dadl Ceidwadwyr Cymreig - Iechyd Meddwl

(60 munud)

**NDM7793** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi mai dydd Sul 10 Hydref yw diwrnod iechyd meddwl y byd.

2. Yn cydnabod effaith COVID-19 ar gymorth iechyd meddwl ac anghydraddoldebau iechyd meddwl.

3. Yn gresynu at y ffaith bod nifer y bobl ifanc sy'n dod i'r ysbyty gyda phroblemau hunan-niweidio wedi codi 39 y cant ers 2007.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys yn ei strategaeth iechyd meddwl 10 mlynedd newydd y flwyddyn nesaf:

a) camau i weithredu argymhellion o adroddiadau Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pumed Senedd, Cadernid Meddwl a Cadernid Meddwl: Ddwy flynedd yn ddiweddarach;

b) adroddiadau blynyddol a phennu targedau ar gyfer amseroedd aros i gael triniaeth iechyd meddwl, gan gynnwys lleihau ôl-groniadau;

c) cyflwyno canolfannau argyfwng iechyd meddwl 24 awr ar lefel genedlaethol;

d) cynllun gweithlu iechyd meddwl clir.

5. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf iechyd meddwl newydd.

Cadernid Meddwl

Cadernid Meddwl: Ddwy flynedd yn ddiweddarach

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu'r cyfan ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r ymrwymiad i adolygu'r dystiolaeth, y data a'r ddarpariaeth gwasanaethau bresennol ar gyfer hunan-niweidio i bobl o bob oed yng Nghymru.

Yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r canlynol:

a) gweithredu argymhellion o adroddiadau Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd, Cadernid Meddwl a Cadernid Meddwl: Ddwy flynedd yn ddiweddarach;

b) cryfhau a chyhoeddi data amseroedd aros iechyd meddwl a gwella perfformiad ledled Cymru;

c) cyflwyno cymorth argyfwng iechyd meddwl 24 awr ar lefel genedlaethol;

d) cynllun gweithlu iechyd meddwl clir.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y diwygiadau i Ddeddf Iechyd Meddwl y DU yn addas ar gyfer Cymru ac yn gyson â deddfwriaeth berthnasol bresennol yng Nghymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'cyflwyno rhwydwaith o ganolfannau iechyd meddwl a lles ieuenctid ataliol'.

## 10 Dadl Plaid Cymru: Tâl gweithwyr gofal iechyd

(30 munud)

**NDM7791** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cefnogi ymdrechion Unite, Unsain a'r Coleg Nyrsio Brenhinol i sicrhau cyflog teg i bob gweithiwr gofal iechyd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru, yn ei thrafodaethau presennol â'r undebau gofal iechyd, i ymrwymo i godiad cyflog mewn termau real uwchlaw'r hyn a gynigiwyd gan gorff adolygu cyflogau'r GIG.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod ymroddiad ac aberth holl staff y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

2. Yn croesawu'r lefelau hanesyddol o gyllid gan Lywodraeth Ei Mawrhydi i bob rhanbarth a gwlad yn y DU, gan gynnwys Cymru, mewn cyllidebau olynol ac yn y frwydr yn erbyn COVID-19.

3. Yn nodi argymhellion corff adolygu cyflogau annibynnol y GIG yng Nghymru a phenderfyniad Llywodraeth Cymru i ddyfarnu codiad cyflog o 3 y cant i staff y GIG.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ar frys ag amodau gwaith fel cymorth iechyd meddwl, cadw staff, uwchsgilio a llenwi bylchau staffio o fewn y GIG, er mwyn sicrhau bod gennym weithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

***[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]***

**Gwelliant 2** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i ymgysylltu ag undebau llafur GIG Cymru gan gynnwys ynghylch cyflogau'r GIG.

## 11 Dadl Plaid Cymru - Pwysau Gaeaf y GIG

(30 munud)

**NDM7792** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun gaeaf i fynd i'r afael â'r pwysau y mae'r GIG yn ei wynebu yn ystod misoedd y gaeaf.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun y gaeaf ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn yr wythnos sy'n dechrau ar 18 Hydref 2021.

## 12 Cyfnod pleidleisio

## 13 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7790** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Addas ar gyfer yr 21ain Ganrif: sut y gall Cymru gwella'r gefnogaeth y mae'n ei rhoi i helpu pobl i oresgyn dibyniaeth ar sylweddau.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 12 Hydref 2021

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 29/09/2021 i'w hateb ar 06/10/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ56949 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i annog trafnidiaeth fwy gwyrdd?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

2 OQ56973 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd metro Gogledd Cymru?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

3 OQ56955 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddynodi Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn barc cenedlaethol?

**Ken Skates** *De Clwyd*

4 OQ56945 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i gysylltu mwy o eiddo yng ngogledd Cymru â band eang cyflym iawn?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

5 OQ56960 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o drafnidiaeth gymunedol yng Nghwm Cynon?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ56962 **(w)**

Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi i gwmnïau sy'n defnyddio tir Cymru at ddibenion gwrthbwyso carbon?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

7 OQ56950 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (Diwygio) 2021 ar gysondeb landlordiaid yn y sector rhentu preifat?

8 **Buffy Williams** *Rhondda*

OQ56971 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau allyriadau fel rhan o Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang?

9 **Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

OQ56954 **(e)**

Pryd fydd cronfa diogelwch adeiladau Cymru ar gael ar gyfer ceisiadau?

10 **Joel James** *Canol De Cymru*

OQ56957 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag allyriadau CO2 o geir?

11 **Peter Fox** *Mynwy*

OQ56958 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwallu'r angen cynyddol ar gyfer cynhyrchu ynni ledled Cymru?

12 **Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

OQ56972 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i atal llifogydd mewn cymunedau yn Nwyrain De Cymru?

## GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

1 **Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

OQ56975 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod disgyblion yn cael eu hamddiffyn rhag aflonyddu mewn ysgolion?

2 **Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

OQ56943 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch effaith ieithyddol ffermydd teulu Cymraeg yn cael eu gwerthu i gwmnïoedd er mwyn plannu coed ar gyfer rhaglenni gwrthbwyso carbon?

3 **Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

OQ56963 **(w)** Tynnwyd yn ôl

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl cynorthyyddion dysgu mewn ysgolion?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

4 OQ56968 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru'n galluogi dysgwyr i ddysgu mewn lleoliadau annhraddodiadol?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

5 OQ56947 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch gweithio gydag ysgolion a cholegau i sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cofrestru i bleidleisio?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

6 OQ56953 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn sicrhau bod pob prosiect adeiladu ysgolion newydd yn ddi-garbon?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

7 OQ56966 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddal i fyny ym maes addysg ar ôl y pandemig?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

8 OQ56951 **(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod safonau uchel mewn addysg yn cael eu cyflawni?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

9 OQ56956 **(w)**

Pa asesiad sydd wedi ei wneud o effaith COVID-19 ar sgiliau iaith Gymraeg plant oed cynradd?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

10 OQ56964 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau ysgolion cynradd yng Nghanol De Cymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11

## OQ56976 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi disgyblion difreintiedig yn y flwyddyn academaidd hon?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

12

## OQ56942 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar gyfer addysg alwedigaethol ôl-16 yn etholaeth Ogwr?